



Ein cyf/Our ref ATISN 9774

Gareth Clubb
Gareth.clubb@foe.co.uk

27 Tachwedd 2015

Annwyl Mr Clubb

Cwyn parthed ATISN 9774

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch cais am adolygiad mewnol dyddiedig 7 Hydref. Rwyf yn ymddiheuro am fod cyhyd cyn ateb. Rwyf wedi cynnal adolygiad mewnol yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yng [Nghanllaw Ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud Ceisiadau am Wybodaeth](#). Gellir cael copi ohono drwy'r post o wneud cais i'r perwyl hwnnw, neu ar y rhyngwyd.

Nodaf ichi ofyn am yr holl ystadegau sy'n dangos llif y traffig ar yr M4 yn ardal Casnewydd. Gwnaethoch ofyn am ystadegau fesul cyffordd ac a oeddent ar gael fesul awr ar gyfer pob diwrnod yn ystod wythnos arferol.

Wrth inni ymateb ar 7 Hydref, rhoddwyd gwybod ichi fod peth o'r wybodaeth wedi'i esemptio o dan adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Esboniwyd ichi fod y Llyfryn Gwybodaeth am Brosiect Casnewydd a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015 (WG26452) yn dangos llif y traffig fesul cyffordd ar ffurf graff ar dudalen 5 ac mewn ffigurau ar dudalen 16, <http://gov.wales/docs/det/publications/150903-m4-can-information-brochure-cy.pdf>

Yn eich e-bost dyddiedig 7 Hydref, gwnaethoch gwyno nad oedd yr wybodaeth a gafodd ei dal yn ôl o dan Adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn benodol yr wybodaeth am ystadegau traffig fesul cyffordd ar gyfer pob diwrnod a fesul awr ar yr M4 o amgylch Casnewydd, wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth uchod. O'r herwydd, rwyf, wrth gynnal yr adolygiad, wedi canolbwyntio ar y darn hwnnw o'ch cais yn unig.

Penodwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r data craidd y cyfeirioch atynt. Canlyniadau'r ymarfer hwnnw a gafodd eu cyhoeddi yn y Daflen Wybodaeth. Ar dudalen 5 o'r Llyfryn, nodir yr ystadegau sydd gennym ar gyfer y Llif Traffig Cyfartalog Blynyddol, a hynny fesul cyffordd ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae'r dadansoddiad hwnnw'n seiliedig ar lif traffig 2014 ac fe'i darparwyd gan ddefnyddio gwybodaeth Traffig Cymru, sef gwasanaeth gwybodaeth traffig Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio system MIDAS. (<http://www.traffic-wales.com/abouttrafficwales.aspx?lang=cy-GB>). Mae'r data craidd yn



Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

simon.jones@cymru.gsi.gov.uk
www.gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sawl Terabeit ac maent yn cael eu cadw mewn man diogel ar fas data Traffig Cymru. Byddai'n cymryd sawl diwrnod i dynnu'r data craidd a'u cyflwyno yn y fformat y gwnaethoch ofyn amdano. Er mwyn rhoi enghraifft ichi, atodaf sampl o'r canlyniadau a gafwyd wrth chwilio am ddata ar MIDAS ar gyfer cyfnod o 24 awr, fesul cyffordd a fesul awr. Cymerodd y gwaith hwn 6-7 awr i'w gasglu o'r basdata ac i'w drosi i fformat darllenadwy (ffeil Microsoft Access zip, 8MB). Mae'r data a geir yn y sampl yn cwmpasu cyfnod o 24 awr ar 2 Tachwedd 2015. Mae'n cynnwys 1.2 miliwn o gofnodion ac mae'n cwmpasu'r data canlynol:

Enw'r Golofn	Disgrifiad
Ffordd	Enw'r ffordd lle mae'r offer wedi'i leoli.
Pellter y Ffordd	Pellter yr offer sydd ar hyd y ffordd o bwynt cyfeirio ee "0123".
Cerbyttfordd	Nodi'r gerbyttfordd lle mae'r offer wedi'i leoli
Lôn	Nodi'r lôn sy'n cael ei chysylltu â'r adroddiad statws. 0 =llain galed, 1 = lôn 1, etc.
Cyflymdra	Cymedr rhifyddol cyflymder y cerbydau yn ar y lôn yn ystod y cyfnod cyfartalog, fel y'i diffiniwyd yn TR 2173 adran 8.8.
Categori Llif 1	Nifer y cerbydau categori 1 y funud, fel y'u diffiniwyd yn TR 2173 adran 8.8 a TR2177.
Categori Llif 2	Nifer y cerbydau categori 2 y funud, fel y'u diffiniwyd yn TR 2173 adran 8.8 a TR2177.
Categori Llif 3	Nifer y cerbydau categori 3 y funud, fel y'u diffiniwyd yn TR 2173 adran 8.8 a TR2177.
Categori Llif 4	Nifer y cerbydau categori 4 y funud, fel y'u diffiniwyd yn TR 2173 adran 8.8 a TR2177.
Pellter Cyfartalog rhwng Cerbydau	Cymedr rhifyddol y pellter cyfartalog rhwng cerbydau a fesurwyd ystod y cyfnod cyfartalog. Wedi'i fesur fesul 0.1 eiliad.
Meddiannaeth	Cymhareb cyfanswm yr amser datgelu i uchafswm yr amser datgelu, ar ffurf canran.
Dyddiad ac Amser yr Ystadegau	Y stamp amser a roddwyd ar y data ystadegol.

Yn eich cais, gofynnoch am ystadegau fesul cyffordd a fesul awr bob dydd yn ystod wythnos gyffredin. Cymerodd 6-7 awr i dynnu'r data ar gyfer y sampl ar gyfer un cyfnod o 24 awr. Byddai angen gwneud hynny ar gyfer pob cyfnod o 24 awr dros gyfnod o wythnos arferol, ac ar sail hynny byddai'n cymryd ymhell dros y terfyn amser o 24 awr a ganiateir ar gyfer cael gafael ar yr wybodaeth.

Gwnaeth yr ymgynghorwyr a gynhaliodd yr ymarfer hwn dynnu'r wybodaeth o ddata Traffig Cymru. Er hynny, nid ydynt yn cadw'r data ategol ar ein rhan yn y fformat y gofynnoch amdano. Byddai, yn yr un modd ag yn yr achos uchod, yn cymryd ymhell dros y 24 awr a ganiateir i gael gafael ar yr wybodaeth.

Mae'n amlwg imi felly y dylai'r rhan hon o'ch cais fod wedi cael ei gwrthod o dan Adran 12 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Byddai rhoi'r data craidd ichi yn costio mwy na'r uchafswm priodol a nodwyd yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004. Y terfyn priodol a bennwyd ar gyfer llywodraeth ganolog yw £600.

Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, i ddod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Ymddiheuraf am nad esboniwyd yr uchod ichi'n fwy clir ar 7 Hydref.

I gloi, rwyf yn cefnogi'ch cwyn yn rhannol. Dylech fod wedi cael esboniad mwy manwl i egluro bod rhan o'ch cais yn cael ei gwrthod o dan Adran 12 o'r Ddeddf, fel y disgrifir uchod a bod yr ystadegau hynny wedi'u hesemptio o dan Adran 21 o'r Ddeddf.

Ymddiriedaf fod yr uchod yn rhoi esboniad mwy clir ichi o'n sefyllfa parthed y mater hwn.

Os ydych yn parhau'n anfodlon â'r ymateb hwn i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth, mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y cyfeiriad canlynol: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer SK9 5AF.

Yn gywir

Simon Jones
Cyfarwyddwr – Trafnidiaeth